

TROSEDDEG

Amser - 1.5 awr

Atebwch DRI chwestiwn

1. Beth sy'n achosi terfysgoedd mewn carchardai a sut y gellid eu hatal?
2. At ba fathau o grwpiau yr anelir troseddau casineb? Pam y maent yn cael eu herlid fel hyn a sut y gellid atal y math hwn o droseddu?
3. Pam nad yw cofnodion yr heddlu o droseddau o angenrheidrwydd yn rhoi darlun cywir o nifer a mathau'r troseddau sy'n digwydd yn y gymdeithas mewn gwirionedd?
4. Trafodwch pam mai dynion ac nid menywod sy'n cyflawni'r mwyafrif o droseddau a gofnodir.
5. Ystyriwch yr hyn y gallai fod ei angen ar rai sy'n dioddef yn sgil trosedd a sut y gallai'r amrywiol asiantaethau cyfiawnder troseddol eu cynorthwyo.
6. 'Mae angen i wleidyddion Prydain agor eu llygaid i weld yr hyn sy'n digwydd ymhob man arall yn y byd. Mae'r gwaharddiad ar ganabis yn cael ei sgubo o'r neilltu ar sail y farn gyhoeddus a'i ddisodli gan reoleiddio cyfreithiol cyfrifol.' (Nick Clegg, cyn Ddirprwy Brif Weinidog Prydain, cyfieithiad o ddyfyniad o'r Guardian, 21 Tachwedd, 2016).

Trafodwch y datganiad uchod gan amlinellu'r dadleuon o blaid ac yn erbyn dad-droseddoli canabis.

7. Nodwch dri o achosion troseddu a dulliau y gellid mynd i'r afael â hwy i leihau ymddygiad troseddol.